Enwebiadau Rhieni Lywodraethwyr

Nominees for role of Parent Governors

Ymgeiswyr yn ol trefn y wyddor
Applicants in alphabetical order:
November/ Tachwedd 2026

Mrs Eiddwen Jones- Mam Nedw (Blwyddyn 1)

Rwyf yn rhiant i Nedw (Blwyddyn 1) a Nel (19 mis). Rwyf yn frwd dros addysg a lles gorau posibl i bob disgybl.

Fel swyddog Lles a Chynhwysiant yn Ysgol Glan Clwyd, mae gennyf brofiad helaeth o ddiogelu plant, cefnogi presenoldeb, cefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol a gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol.

Mae gen i radd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, sy'n rhoi dealltwriaeth gadarn i mi o ddiogelwch, ymddygiad a materion cymdeithasol bosib ar rai o'r disgyblion.

Hoffwn gyfrannu fy mhrofiad, fy ngwybodaeth a'm hymrwymiad at ddatblygiad a chynnydd llesol pob plentyn o fewn yr ysgol.

I am a parent of Nedw (Year 1) and Nel (19 months old). I am passionate about ensuring the best possible education and wellbeing for every pupil.

As an Inclusion and Wellbeing Officer at Ysgol Glan Clwyd, I have extensive experience in safeguarding children, supporting attendance, assisting pupils with emotional and wellbeing needs, and working closely with parents and external agencies.

I hold a degree in Criminology and Criminal Justice, which has given me a strong understanding of safeguarding, behaviour, and the social issues that can affect some pupils.

I would welcome the opportunity to contribute my experience, knowledge, and commitment to supporting the continued development, wellbeing, and success of every child within the school community.

Mrs Llinos Medi- Mam Heti Haf (Derbyn) a Mabli Siriol (Meithrin)

Mae gen i angerdd dros addysg a dros sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle gorau i ffynnu a chyflawni ei botensial. Fel rhiant i blant yn yr ysgol ac fel athrawes mewn ysgol uwchradd, credaf y gallaf gynnig persbectif gwerthfawr a fyddai'n cyfrannu at lwyddiant yr ysgol.

Hoffwn gydweithio â staff, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau'r addysg a chyfleoedd gorau i bob disgybl.

Rydw i'n angerddol dros y Gymraeg a hoffwn gael y cyfle i helpu Ysgol Pen Barras gyfrannu at Gymreictod Rhuthun a'r cylch.

I am passionate about education and committed to ensuring that every child has the best possible opportunity to thrive and achieve their full potential. As both a parent of children at the school and a secondary school teacher, I believe I can offer a valuable perspective that would contribute to the school's continued success.

I would welcome the opportunity to work collaboratively with staff, parents and the governing body to help secure the highest standards of education and the best opportunities for all pupils.

I am also passionate about the Welsh language and Welsh culture, and I would value the opportunity to support Ysgol Pen Barras in promoting and strengthening the Welsh identity and heritage of Ruthin and the surrounding community.

Mrs Rachel Rees- Mam Tomos (Blwyddyn 5) ac Owen (Blwyddyn 3)

Fel cyn-ddisgybl o'r ysgol ac yn rhiant i ddau o ddisgyblion Ysgol Pen Barras, rwy'n hynod angerddol dros ein hysgol. Gyda dros 15 mlynedd o brofiad fel athrawes gynradd, mae gennyf ddealltwriaeth gadarn o safonau addysgol uchel, dysgu cynhwysol a lles disgyblion.

Hoffwn gydweithio â'r staff a'r llywodraethwyr i barhau i feithrin dysgwyr gydol oes, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno a helpu i yrru gwelliant parhaus yr ysgol ymlaen. Rwy'n barod i roi o'm hamser ac i wrando ar safbwyntiau rhieni eraill.

Rwy'n awyddus i gyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn parhau i fod yn ganolbwynt ffyniannus ac yn falchder i gymuned Rhuthun.

As a former pupil myself and parent of two Ysgol Pen Barras learners, I am extremely passionate about our school. With over 15 years' experience as a primary teacher, I have strong knowledge of high educational standards, inclusive learning, and pupil well-being.

I want to work alongside the Staff and Governors to help to continue nurturing lifelong learners, ensuring every child is supported and helping to drive continuous school improvement. I am committed to giving my time and listening to fellow parents.

I am eager to help keep our school a thriving beacon of Ruthin's community.

Mrs Anlaw Thomas – Mam Osian (Derbyn) a Gwion (Meithrin)

Hoffwn gael y cyfle i fod yn llywodraethwr rhiant yn Ysgol Pen Barras a chyfrannu at gefnogi'r ysgol a'i datblygiad i'r dyfodol. Fel rhiant, rwy'n deall pa mor bwysig yw hi i blant gael amgylchedd hapus a chefnogol lle cânt eu hannog i wneud eu gorau a chyrraedd eu llawn botensial.

Drwy fy ngwaith fel Pennaeth Mathemateg mewn ysgol uwchradd, mae gen i hefyd brofiad o'r byd addysg a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi ynddo.

Byddwn yn falch o ddefnyddio'r profiad hwn, ochr yn ochr â'm safbwynt fel rhiant, i wrando, cyfrannu syniadau a chefnogi cymuned yr ysgol.

I would welcome the opportunity to become a parent governor at Ysgol Pen Barras and play a part in supporting the school and its future development. As a parent, I understand how important it is to have a school where children feel happy, supported and encouraged to reach their potential.

Through my role as Head of Mathematics in a secondary school, I also bring an understanding of the challenges and opportunities within education. I would be keen to use this experience, alongside my perspective as a parent, to listen, contribute ideas and help make a positive difference to the school community.

Mrs Bethan Williams- Mam Harri Delwyn (Bl.3) ac Elsi Olive(Bl.1)

Rwy'n angerddol dros addysg ac yn awyddus i ddefnyddio fy sgiliau a'm profiad i gefnogi Ysgol Pen Barras i ffynnu. Gyda 20 mlynedd o brofiad ym maes addysgu, gan gynnwys fy rôl bresennol fel Arweinydd Yr Uned Dan 7 yn Ysgol Twm o'r Nant, rwyf wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o anghenion plant, teuluoedd ac ysgolion.

Mae gennyf brofiad helaeth o arwain, cydweithio'n effeithiol â staff a hyrwyddo gwelliant parhaus er budd disgyblion. Bûm hefyd yn llywodraethwr am chwe blynedd, profiad gwerthfawr a roddodd ddealltwriaeth glir i mi o bwysigrwydd rôl y corff llywodraethu a'i gyfrifoldebau.

Hoffwn gyfrannu fy ngwybodaeth, fy mhrofiad a'm brwdfrydedd i gefnogi'r ysgol, ei staff, ei disgyblion a'r gymuned ehangach wrth iddynt barhau i ddatblygu, ffynnu a llwyddo.

I am passionate about education and keen to use my skills and experience to support Ysgol Pen Barras to thrive. With 20 years of teaching experience, including my current role as Leader of the Under-7 Unit at Ysgol Twm o'r Nant, I have developed a strong understanding of the needs of children, families, and schools.

I have significant experience in leadership, working effectively with staff, and promoting continuous improvement for the benefit of pupils. I also served as a school governor for six years, a valuable experience that gave me a clear understanding of the importance of the governing body's role and responsibilities.

I would welcome the opportunity to contribute my knowledge, experience, and enthusiasm to support the school, its staff, its pupils, and the wider community as they continue to develop, thrive, and succeed.